Scroll down for Welsh version

First underwater footage of a rare Angelshark taken in Wales

Local diver snaps first ever underwater photos and videos of Critically Endangered juvenile Angelshark – providing further evidence that the species is actively breeding in UK waters

For the first time ever, scientists have recorded footage of a juvenile Angelshark (*Squatina squatina*) in the UK. Filmed in North Cardigan Bay off the Welsh coast, the unique underwater footage provides encouraging evidence that Angelsharks are using Welsh waters to give birth.

Photographer and marine biologist, Jake Davies, Angel Shark Project: Wales Coordinator said: "I've always kept an eye out for Angelsharks during dives, having worked to better understand the species for the last four years. I couldn't believe it when I saw the Angelshark, and what was really exciting was that it was a juvenile, just 30cm in length – providing further evidence that the species is giving birth in this area.

"It was incredible to watch and film it swimming, burying into the sand and then using its camouflage to ambush prey. This footage is far beyond what we thought would be possible to capture in Wales."

The Angelshark is listed as Critically Endangered on the IUCN Red List of Threatened species following a decline in their range over the last 50 years. Angel Shark Project: Wales (ASP:W) is a collaborative project led by Natural Resources Wales (NRW) and ZSL (Zoological Society of London). The project works with local communities and fishers to gather Angelshark records, alongside carrying out research to better understand the ecology of the species in Wales. ASP:W is currently funded by On the EDGE Conservation and Welsh Government.

Joanna Barker, Senior Project Manager at ZSL and Co-Founder of the Angel Shark Project, said: "This footage supports our hypothesis that Angelsharks give birth in waters around Wales. The size (30cm) and white markings on the dorsal fin edges show the Angelshark was born this year, confirming we have an active breeding population in Wales.

"This new footage is extremely useful to inform our conservation efforts for this species, especially as Wales hosts one of the last Angelshark populations in the northern most part of their range."

Angelsharks are protected in Wales, through inclusion on both the 'Wildlife and Countryside Act' and 'Environment (Wales) Act', and it is an offence to target or disturb this species. Last year the Wales Angelshark Action Plan was launched by ASP:W, setting out priority actions to safeguard this species in Wales.

Ben Wray, Marine Ecologist and Project Manager at NRW added: "Little is known about the status, ecology or location of important habitats for Angelsharks in Wales. Only 4% of Angelshark records gathered by ASP:W to date are of juveniles, so this footage is extremely important. It builds our understanding of Angelshark ecology, including that they use both sand and mixed habitats and that the juveniles prey on gobies. We will use this evidence to help plan future research and discover more about this rare species in Wales"

If you have a Angelshark record or have accidentally encountered this species whilst fishing, please report it to www.angelsharkproject.com/map and follow the best practice guidance.

ontheedge CONSERVATION

Ariennir yn Rhannol gan **Lywodraeth Cymru**
Part Funded by **Welsh Government**

-ENDS-

Editors' Notes

Media contacts

ZSL (Zoological Society London) Press Office
Charlotte.raynsford@zsl.org
Press.office@zsl.org

NRW Communications office
communications@naturalresources.wales
029 2046 4227 (24hrs)

Related high-res video available here:
https://wetransfer.com/downloads/8ba58e03777df0fe66da634b29c4fec720210831121617/9feb4f0a00302e3f9c9f89d6133b0df120210831121631/450630

Angel Shark Project: Wales
Angel Shark Project: Wales (ASP:W) is a collaborative initiative led by Natural Resources Wales (NRW) and international conservation charity ZSL (Zoological Society of London). Our aim is to safeguard Angelsharks in Wales with fishers and coastal communities, using heritage, education and research www.angelsharkproject.com/wales. The project is currently funded by On the EDGE Conservation and Welsh Government.

ASP:W Steering Group
The Angel Shark Project: Wales Steering Group includes the following organisations: Cefas; National Waterfront Museum; North Wales Wildlife Trust; People's Collection Wales; Shark Trust; Universidad de Las Palmas de Gran Canaria; Welsh Federation of Sea Anglers; Welsh Fisherman's Association; Zoological Research Museum Alexander Koenig.

Angelsharks in Wales
Wales is one of the only places in north-west Europe with regular sightings of the Critically Endangered Angelshark (*Squatina squatina*). This species is protected in Wales, through inclusion on both the 'Wildlife and Countryside Act' and 'Environment (Wales) Act', but little is known about its status, ecology or location of important habitats. What we do know is that Angelsharks are still present in Wales and they have been

recorded as accidental encounters by fishers in the Welsh Zone throughout the last decade. ASP:W is working in partnership to better understand and safeguard this Critically Endangered species in the northern part of its range, and deliver priority actions of the Wales Angelshark Action Plan.

Natural Resources Wales
Natural Resources Wales is a Welsh Government Sponsored Body. Its purpose is to ensure that the natural resources of Wales are sustainably maintained, enhanced and used, now and in the future
For more information, see our website: www.naturalresources.wales

ZSL (Zoological Society of London)
Founded in 1826, ZSL (Zoological Society of London) is an international scientific, conservation and educational charity whose mission is to promote and achieve the worldwide conservation of animals and their habitats. Our mission is realised through our ground-breaking science, our active conservation projects in more than 50 countries and our two Zoos, ZSL London Zoo and ZSL Whipsnade Zoo. For more information visit www.zsl.org

On the EDGE Conservation
We believe a sustainable future for all life on Earth is possible — but only if we transform the way we treat nature, fast. At On The EDGE Conservation, we're committed to reconnecting the public with the value and importance of biodiversity — as well as bringing about lasting, large-scale change to protect species and ecosystems across the world. Our Goal is to inspire curiosity, respect, ambition and action for the natural world. www.ontheedge.org

Welsh Government
The Welsh Government is the devolved Government for Wales. We are working to help improve the lives of people in Wales and make our nation a better place in which to live and work. The Welsh Government's Marine and Fisheries Division is working towards its vision for clean, healthy, safe, productive and biologically diverse seas in Wales, and it works in partnership to achieve its vision.
The Welsh Government has a number of national and international obligations towards conserving and enhancing biodiversity in Welsh waters. www.gov.wales

Use of Images and Video
Photographs, video or graphics distributed by ZSL (Zoological Society of London) to support this media release were taken by Jake Davies and should be credited "Jake Davies | JDScuba | Angel Shark Project: Wales". They may only be used for editorial reporting purposes for the contemporaneous illustration of events, things or the persons in the image or facts mentioned in the media release or image caption. Reuse of the picture or video requires further permission from JDScuba.

General Data Protection Regulation (GDPR)
You are currently on the Zoological Society London (ZSL) databases as a press contact. We class press contacts as the journalists, press officers and those working within science communications who have helped ensure the ZSL can continue its mission to ensure the public have access to the best scientific evidence and expertise through the news media when science hits the headlines. Due to the new General Data Protection Regulation (GDPR), we are letting you know that we hold and process your data under legitimate interest. At any time you can object to the holding or processing of your data, and we will remove you from our database. More information on what we hold, why we keep it and what we use it for is available in our privacy statement.
If you have any further questions, please get in touch.

Lluniau tanddwr cyntaf o Faelgi prin wedi'u tynnu yng Nghymru

Plymiwr lleol wedi tynnu lluniau a cael fideos tanddwr cyntaf erioed o Faelgwn ifanc, rhywogaeth sydd mewn Perygl Difrifol – gan ddarparu tystiolaeth bellach a chadarnhau fod y rhywogaeth yn bridio yn nyfroedd y DU.

Mae lluniau anhygoel o Faelgi ifanc (*Squatina squatina*) wedi'u tynnu'r wythnos hon gan ddeifiwr lleol a biolegydd morol, Jake Davies, yng Ngogledd Bae Ceredigion oddi ar arfordir Cymru. Dyma'r tro cyntaf i'r rhywogaeth gael ei ffilmio o dan y dŵr yn y DU, ac mae o bwysigrwydd cadwraethol mawr, gan ei fod yn darparu tystiolaeth ychwanegol bod Maelgwn yn defnyddio dyfroedd Cymru i roi genedigaeth.

Dywedodd Jake Davies, Cydlynydd Prosiect Maelgi: Cymru "Rwyf wastad wedi cadw llygaid i weld os welwn i Faelgwn wrth ddeifio, ar ôl gweithio i gael gwell dealltwriaeth o'r rhywogaeth dros y pedair blynedd diwethaf! Doeddwn i ddim yn gallu credu'r peth pan welais y Maelgi, a beth oedd yn hynod gyffrous oedd mai ifanc oedd y siarc, dim ond 30cm o hyd. Roedd yn anhygoel ei wylio a'i ffilmio'n nofio, yn cloddio i'r tywod ac yna'n defnyddio ei guddliw i ymosod ar ei ysglyfaeth. Mae'r clip ffilm yma lawer gwell na'r disgwyliadau oedd gennym ni o recordio'r rhywogaeth yng Nghymru."

Ar Restr Goch yr IUCN o rywogaethau sydd dan fygythiad, mae'r Maelgi wedi'i restru mewn Perygl Difrifol yn dilyn gostyngiad yn eu niferoedd dros y 50 mlynedd diwethaf. Mae Prosiect Maelgi: Cymru (PM:C) yn brosiect cydweithredol dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Chymdeithas Swoleg Llundain (ZSL). Mae'r prosiect yn gweithio gyda chymunedau a physgotwyr lleol i gasglu cofnodion o'r Maelgi, ochr yn ochr â chynnal ymchwil i ddeall ecoleg y rhywogaeth yng Nghymru yn well. Ariennir PM:C ar hyn o bryd gan On the EDGE Conservation a Llywodraeth Cymru.

Dywedodd Joanna Barker, Cyd-sylfaenydd Prosiect Maelgi ac Uwch Reolwr Prosiect yn ZSL: "Mae'r clip ffilm yma'n cefnogi ein rhagdybiaeth bod Maelgwn yn rhoi genedigaeth mewn dyfroedd ledled Cymru. Mae ei faint (30cm) a'r marciau gwynion ar ymylon yr esgyll dorsal yn dangos bod y maelgi wedi'i eni eleni, gan gadarnhau bod gennym boblogaeth fridio weithredol yng Nghymru. Mae hyn yn hynod ddefnyddiol i lywio ein hymdrechion cadwraeth, yn enwedig gan fod Cymru'n gartref i un o boblogaethau fwyaf gogleddol olaf y Maelgi o fewn eu hardaloedd byw."

Mae Maelgwn yn cael eu gwarchod yng Nghymru, gan eu bod wedi'u cynnwys yn y 'Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad' a 'Deddf yr Amgylchedd (Cymru)', ac mae'n drosedd i dargedu neu i darfu ar y rhywogaeth yma.

Bu lansio Cynllun Gweithredu Maelgi Cymru gan PM:C y llynedd, sy'n nodi'r camau blaenoriaeth i ddiogelu'r rhywogaeth yma yng Nghymru.

Ychwanegodd Ben Wray, Ecolegydd Morol a Rheolwr Prosiect yn CNC: "Ychydig a wyddwn am statws, ecoleg neu leoliad cynefinoedd pwysig ar gyfer Maelgwn yng Nghymru. Dim ond 4% o gofnodion am y Maelgi a gasglwyd gan PM:C sydd o rai ifanc hyd yma, felly mae'r clip ffilm hwn yn eithriadol o bwysig. Mae'n ychwanegu at ein dealltwriaeth o ecoleg y Maelgi, gan gynnwys eu bod yn defnyddio cynefinoedd tywod a chymysg a bod yr ifanc yn ysglyfaethu gobïod. Byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth yma i helpu i gynllunio ymchwil yn y dyfodol a darganfod mwy am y rhywogaeth brin yma yng Nghymru"

Os oes gennych gofnod o'r Maelgi neu os ydych wedi dod ar draws y rhywogaeth yma'n ddamweiniol wrth bysgota, rhowch wybod i www.angelsharkproject.com/map a dilyn y canllawiau arfer gorau.

ontheedge CONSERVATION

Ariennir yn Rhannol gan **Lywodraeth Cymru**
Part Funded by **Welsh Government**

-DIWEDD-

Nodiadau i olygyddion

Cyswllt i'r cyfryngau
Swyddfa'r Wasg ZSL (Cymdeithas Swoleg Llundain)
Charlotte.raynsford@zsl.org
Press.office@zsl.org

Swyddfa Gyfathrebu CNC
communications@naturalresources.wales
029 2046 4227 (24 awr)

Fideo cysylltiedig o safon uchel ar gael yma:
https://wetransfer.com/downloads/8ba58e03777df0fe66da634b29c4fec720210831121617/9feb4f0a00302e3f9c9f89d6133b0df120210831121631/450630

Prosiect Maelgi: Cymru
Mae Prosiect Maelgi: Cymru (PM:C) yn fenter gydweithredol dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a'r elusen gadwraeth ryngwladol ZSL (Cymdeithas Swoleg Llundain). Ein nod yw diogelu Maelgwn yng Nghymru gyda physgotwyr a chymunedau arfordirol, gan ddefnyddio treftadaeth, addysg ac ymchwil https://angelsharknetwork.com/cymru/. Ariennir y prosiect ar hyn o bryd gan On the EDGE Conservation a Llywodraeth Cymru.

Grŵp Llywio PM:C
Mae Grŵp Llywio Prosiect Maelgi: Cymru yn cynnwys y sefydliadau canlynol: Cefas; Amgueddfa Genedlaethol y Glannau; Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru; Casgliad y Werin Cymru; Ymddiriedolaeth y Siarcod; Universidad de Las Palmas de Gran Canaria; Ffederasiwn Pysgotwyr Môr Cymru; Cymdeithas Pysgotwyr Cymru; Amgueddfa Ymchwil Swolegol Alexander Koenig.

Maelgwn yng Nghymru
Cymru yw un o'r unig leoedd yng ngogledd-orllewin Ewrop gyda chipiau golwg rheolaidd ar y Maelgi sydd mewn Perygl Difrifol (*Squatina squatina*). Mae'r rhywogaeth yma'n cael ei gwarchod yng Nghymru, gan ei bod wedi ei chynnwys yn y 'Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad' a 'Deddf yr Amgylchedd (Cymru)', ond ychydig a wyddwn am ei statws, ecoleg neu leoliad o gynefinoedd pwysig. Yr hyn a wyddom yw bod Maelgwn yn dal i fod yn bresennol yng Nghymru ac maent wedi cael eu cofnodi dros y degawd diwethaf ym Mharth Cymru gan bysgotwyr sydd wedi dod ar eu traws ar hap a damwain. Mae PM:C yn gweithio mewn

partneriaeth i gael dealltwriaeth well a diogelu'r rhywogaeth hon sydd mewn Perygl Difrifol yn rhan ogleddol o'i ardal byw, a chyflawni camau blaenoriaeth Cynllun Gweithredu Maelgwn Cymru.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Ei ddiben yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy, yn awr ac yn y dyfodol
I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan: www.cyfoethnaturiol.cymru

ZSL (Cymdeithas Swoleg Llundain)
Wedi'i sefydlu yn 1826, mae ZSL (Cymdeithas Swoleg Llundain) yn elusen wyddonol, gadwrol ac addysgol ryngwladol sydd â'r nod o hyrwyddo a chyflawni cadwraeth fyd-eang anifeiliaid a'u cynefinoedd. Mae ein cenhadaeth yn cael ei gwireddu drwy ein gwyddoniaeth arloesol, ein prosiectau cadwraeth gweithredol mewn mwy na 50 o wledydd a'n dau Sw, ZSL London Zoo a ZSL Whipsnade Zoo. Am fwy o wybodaeth ewch i www.zsl.org

Ar Gadwraeth EDGE
Rydyn ni'n credu bod dyfodol cynaliadwy i bob bywyd ar y Ddaear yn bosibl - ond dim ond os ydyn ni'n trawsnewid y ffordd rydyn ni'n trin natur yn gyflym. Yn On The EDGE Conservation, rydym wedi ymrwymo i ailgysylltu'r cyhoedd â gwerth a phwysigrwydd bioamrywiaeth - yn ogystal â sicrhau newid parhaol ar raddfa fawr i amddiffyn rhywogaethau ac ecosystemau ledled y byd. Ein Nod yw ysbrydoli chwilfrydedd, parch, uchelgais a gweithredu ar gyfer y byd naturiol. www.ontheedge.org

Llywodraeth Cymru
Llywodraeth Cymru yw Llywodraeth ddatganoledig Cymru. Rydym yn gweithio i helpu i wella bywydau pobl yng Nghymru a gwneud ein cenedl yn lle gwell i fyw a gweithio ynddo. Mae Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru yn gweithio tuag at ei gweledigaeth ar gyfer moroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol a biolegol amrywiol yng Nghymru, ac mae'n gweithio mewn partneriaeth i gyflawni ei gweledigaeth.
Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o rwymedigaethau cenedlaethol a rhyngwladol tuag at warchod a gwella bioamrywiaeth yn nyfroedd Cymru. Am fwy o wybodaeth: www.llyw.cymru

Defnydd o Ddelweddau a Fideo
Jake Davies dynnodd y ffotograffau, fideo neu waith graffig a ddosbarthwyd gan ZSL (Cymdeithas Swoleg Llundain) i gefnogi'r datganiad hwn i'r cyfryngau a dylid eu credydu "Jake Davies | JDScuba | Prosiect Maelgi: Cymru". Gellir ond eu defnyddio at ddibenion adrodd golygyddol ar gyfer darlunio digwyddiadau, pethau neu'r personau yn y ddelwedd neu'r ffeithiau a grybwyllir yn y datganiad i'r cyfryngau neu ym mhennawd y darlun. Mae angen gofyn am ganiatâd pellach gan JDScuba os am ailddefnyddio'r llun neu'r fideo.

Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)
Rydych chi ar hyn o bryd ar gronfeydd data Cymdeithas Swoleg Llundain (ZSL) fel cyswllt o'r wasg. Mae cysylltiadau o'r wasg i ni yn golygu newyddiadurwyr, swyddogion y wasg a'r rhai sy'n gweithio o fewn cyfathrebu gwyddoniaeth sydd wedi helpu i sicrhau y gall y ZSL barhau â'i genhadaeth i sicrhau bod gan y cyhoedd fynediad i'r dystiolaeth a'r arbenigedd gwyddonol gorau drwy'r cyfryngau newyddion pan fydd gwyddoniaeth yn taro'r penawdau. O ganlyniad y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) newydd, rydym yn rhoi gwybod i chi ein bod yn cadw ac yn prosesu eich data o dan fuddiant cyfreithlon. Ar unrhyw adeg gallwch wrthwynebu'r cadw neu brosesu ar eich data, a byddwn yn eich tynnu oddi ar ein cronfa ddata. Mae rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei gadw, pam rydym yn ei gadw, a'r hyn rydym yn ei ddefnyddio ar ei gyfer ar gael yn ein datganiad preifatrwydd.
Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, cysylltwch â ni.